# Arolygiad Practis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

Crescent Dental Care

Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

Dyddiad yr arolygiad: 28 Medi 2017

Dyddiad cyhoeddi: 29 Rhagfyr 2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Y Rheolwr Cyfathrebu**

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**

**Parc Busnes Rhyd-y-car**

**Merthyr Tudful**

**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn: 0300 062 8163**

**E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk**

**Ffacs: 0300 062 8387**
**Gwefan: www.agic.org.uk**



ISBN Digidol 978-1-78859-406-6



© Hawlfraint y Goron 2017

## Cynnwys


1. Yr hyn a wnaethom ........ 5

2. Crynodeb o'n harolygiad ........ 6

3. Yr hyn a ganfuom ........ 8

   Ansawdd profiad y claf ........ 9

   Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol ........ 14

   Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth ........ 21

4. Beth nesaf? ........ 23

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol ........ 24

   Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad ........ 25

   Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith ........ 26

   Atodiad C – Cynllun gwella ........ 28

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r corff annibynnol sy'n arolygu ac yn rheoleiddio gofal iechyd yng Nghymru**

# Ein diben

**Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.**

# Ein gwerthoedd

- **Canolbwyntio ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud**
- **Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest**
- **Annibynnol: rydym yn gweithredu a gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn**
- **Cydweithredol: rydym yn datblygu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol**
- **Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, effeithlon a chyfrannol**

# Ein blaenoriaethau

**Ein nod trwy ein gwaith yw:**

| | |
|---|---|
| **Darparu sicrwydd:** | **Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal.** |
| **Hybu gwelliant:** | **Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.** |
| **Dylanwadu ar bolisi a safonau:** | **Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.** |

# 1. Yr hyn a wnaethom

Gwnaeth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gwblhau arolygiad â rhybudd o Crescent Dental Care yn 24 Uplands Crescent, Uplands, Abertawe, SA2 0PB, yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, ar 28 Medi 2017.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys arolygydd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd y gwasanaeth yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal (2015).

Ceir gwybodaeth bellach am sut rydym yn cynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth fod Crescent Dental Care yn ymdrechu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i'w gleifion mewn amgylchedd dymunol, gyda staff sy'n gyfeillgar, yn broffesiynol ac yn ymroddedig. Fodd bynnag, daethom ar draws peth tystiolaeth nad oedd y practis yn cydymffurfio'n llwyr â'r holl Safonau Iechyd a Gofal ym mhob maes.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd cleifion yn fodlon iawn ar y gwasanaeth a ddarperir
- Roedd y tîm staff yn gyfeillgar, yn groesawgar, ac yn ymroddedig i ddarparu gofal o safon uchel
- Roedd digon o gyfarpar yn y cyfleusterau clinigol ac roeddent yn lân

Gwnaethom argymell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Gwneud rhagor o wybodaeth hyrwyddo iechyd deintyddol ar gael i gleifion
- Mae angen diwygio a diweddaru'r polisi cwynion ar gyfer cleifion y GIG a chleifion preifat
- Dylid cynnal arolygiad weirio trydanol bob pum mlynedd, a darparu tystiolaeth i AGIC
- Dylai'r practis sicrhau bod digon o offer llaw uwchsonig[1] ar gyfer pob ystafell driniaeth a gwella dilysiad y prosesau glanhau â llaw drwy

[1] Mae'r offer llaw sonig neu uwchsonig yn rhan gyffredin o arfogaeth hylendid a pheridontol heddiw. Mae'r digennwr sonig yn gweithredu ar amledd isel o tua 3,000 i 8,000 o gylchredau'r eiliad (sef pa mor aml mae'r blaen yn cyffwrdd â'r dant).

ddefnyddio llyfr cofnodion pwrpasol a chyflwyno'r defnydd o fandiau matrics untro

- Mae angen rhoi hyfforddiant diogelu oedolion sy'n agored i niwed ar waith ar gyfer yr holl staff perthnasol
- Dylid adolygu a diweddaru'r ffeil ymbelydredd o ran defnydd diogel o belydrau-X
- Mae'n rhaid cofnodi nodiadau cleifion yn unol â chanllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol
- Mae'n rhaid diweddaru gwiriad clirio diogelu ar gyfer dau o'r deintyddion

# 3. Yr hyn a ganfuom

## Cefndir y gwasanaeth

Mae Crescent Dental Care yn darparu gwasanaethau ar gyfer cleifion yn Abertawe a'r ardaloedd cyfagos. Mae'r practis yn rhan o wasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg.

Mae gan y practis dîm o staff sy'n cynnwys wyth deintydd, un hylenydd, pum nyrs ddeintyddol, pum nyrs ddeintyddol dan hyfforddiant, tri derbynnydd, dau reolwr practis ac un cyfarwyddwr gwasanaethau.

Mae'r practis yn darparu ystod o wasanaethau deintyddol cyffredinol ar gyfer cleifion preifat a chleifion y GIG.

## Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Ar y cyfan, canfuom fod practis Crescent Dental Care yn gweithio'n galed i ddarparu gwasanaeth o ansawdd da a'i fod yn ymroddedig i ddarparu profiad cadarnhaol i'w gleifion. Roedd yr adborth a gafwyd trwy ein holiadur cleifion yn gadarnhaol iawn.

Cyn yr arolygiad, estynnwyd gwahoddiad i'r practis ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn cael eu sylwadau ar y gwasanaethau deintyddol a oedd yn cael eu darparu. Cwblhawyd cyfanswm o 20 o holiaduron. Cafodd y rhan fwyaf o'r holiaduron eu cwblhau gan gleifion a oedd wedi bod gyda'r practis ers dros ddwy flynedd. Ar y cyfan, roedd adborth cleifion yn gadarnhaol iawn. Gofynnwyd i'r cleifion yn yr holiaduron sut y gallai'r practis deintyddol wella'r gwasanaethau a ddarperir ganddo. Dyma rai o'r sylwadau a dderbyniwyd:

> *"Mae'r gwasanaeth yn dda iawn"*
>
> *"Rwy'n cael neges destun yn f'atgoffa o ddyddiad ac amser f'apwyntiad nesaf"*
>
> *"Amser aros. Bob amser yn aros 15–30 munud yn yr ystafell aros cyn apwyntiad"*

Dywedodd y derbynnydd ar ddiwrnod yr arolygiad fod y practis yn monitro unrhyw oedi o ran amser a cheisio rhoi gwybod i gleifion am unrhyw broblemau. Fodd bynnag, efallai y byddai'r practis yn dymuno ystyried yr agwedd hon o'r gwasanaeth ymhellach.

### Cadw'n iach

Gwnaeth pob claf ond tri a gwblhaodd holiadur AGIC ddweud wrthym fod y tîm deintyddol wedi siarad â nhw ynghylch sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach. Mae gwybodaeth hybu iechyd yn cynorthwyo cleifion i fod yn gyfrifol am eu hiechyd a'u llesiant eu hunain. Mae angen i'r practis ddarparu mwy o

wybodaeth hybu iechyd deintyddol yn y mannau aros, er mwyn i gleifion gael mynediad at wybodaeth a allai eu cefnogi o ran sut i ofalu am eu hylendid ceg eu hunain. Roedd arwyddion 'dim ysmygu' wedi'u harddangos yn y dderbynfa/man aros.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i'r practis roi mwy o wybodaeth hybu iechyd deintyddol yn y mannau aros.

## Gofal ag urddas

Gwelsom dystiolaeth i ddangos bod y cleifion yn derbyn gofal gydag urddas a pharch. Roedd pob claf a gwblhaodd holiadur yn teimlo ei fod wedi cael ei drin â pharch wrth ymweld â'r practis.

Roedd lle ar gael i staff gael sgyrsiau â chleifion mewn man preifat i ffwrdd o gleifion eraill, pe bai angen, er mwyn cynnal cyfrinachedd cleifion. Gwelsom staff yn siarad â chleifion mewn modd cyfeillgar a phroffesiynol. Gwelsom fod y drysau i'r ystafelloedd triniaeth ddeintyddol (lle'r oedd cleifion yn derbyn gofal ar ddiwrnod ein harolygiad) wedi'u cadw ar gau i gynnal preifatrwydd ac urddas.

Cafodd y practis ei gynghori yn ystod yr arolygiad i wneud defnydd gwell o'r llenni tywyll sydd ar gael yn yr ystafell driniaeth lawr llawr (o'r staff sy'n mynd heibio) a'r ystafell driniaeth sydd yn y blaen lan llofft (o adeiladau cyfagos sy'n edrych dros yr ystafell driniaeth) er mwyn cynnal preifatrwydd yn fwy effeithiol yn y mannau hynny.

### Gwybodaeth i gleifion

Dywedodd y cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn teimlo'n rhan o'r penderfyniadau a wneir ynghylch eu triniaeth i'r graddau yr oeddent yn dymuno, a'u bod wedi cael eu helpu i ddeall yr opsiynau triniaeth oedd ar gael.

Dywedodd y rhan fwyaf o gleifion a gwblhaodd holiadur fod cost unrhyw driniaeth yn cael ei hesbonio iddynt bob amser cyn iddynt dderbyn unrhyw driniaeth. Fodd bynnag, dywedodd bron hanner o'r cleifion nad oeddent yn deall sut roedd cost eu triniaeth yn cael ei chyfrifo. Er hynny, gwelsom fod gwybodaeth am restrau prisiau triniaeth y GIG a thriniaeth breifat ar gael yn y man aros, er mwyn i gleifion gael eu hysbysu am gostau.

Roedd hanes meddygol cleifion yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru yn rheolaidd. Hefyd, gwelsom dystiolaeth o gynllunio triniaethau ac opsiynau'n cael eu trafod gyda'r cleifion.

### Cyfathrebu'n effeithiol

Ni wnaeth unrhyw un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC nodi ei fod yn siaradwr Cymraeg. Hefyd, dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur wrthym fod modd iddynt siarad â staff yn eu hiaith o ddewis bob amser. Roedd fersiynau Cymraeg o weithdrefnau cwyno ar gael yn yr ystafelloedd aros. Fe'n hysbyswyd bod gan y practis fynediad at linell gyfieithu iaith i gleifion os oedd angen. Mae staff y practis yn gallu cefnogi anghenion ieithyddol y cleifion gan fod gan y staff sgiliau iaith Gymraeg, Arabeg, Perseg, Bengaleg, Ffrangeg, Twrceg a pheth Almaeneg.  Dywedodd y practis hefyd eu bod yn sicrhau bod Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gael mewn Mandarin, Bengaleg a Phwyleg. Dylid cymeradwyo'r gefnogaeth a'r dull cyfathrebu hwn.

## Gofal amserol

Gwelsom fod y practis yn ymdrechu i sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld yn brydlon. Disgrifiodd staff y broses a ddefnyddir i roi gwybod i'r cleifion mewn da bryd am unrhyw oedi neu ohirio apwyntiadau. Dywedodd ychydig dros draean o'r cleifion a gwblhaodd holiadur na fyddent yn gwybod sut i gael mynediad at y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe bai problem ddeintyddol frys ganddynt. Fodd bynnag, gwelsom fod manylion y rhif ffôn cyswllt brys i'r GIG, manylion y deintyddion ymarfer, ac oriau agor y ddeintyddfa yn cael eu harddangos y tu allan i'r adeilad.

## Gofal unigol

### Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Dywedodd pob un a gwblhaodd holiadur wrthym fod y deintydd wedi holi am ei hanes meddygol cyn ymgymryd ag unrhyw driniaeth. Dywedodd pob un ond tri o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym fod y tîm deintyddol wedi siarad ag ef ynghylch sut i gadw ei geg a'i ddannedd yn iach.

### Hawliau pobl

Roedd gan y practis bolisi cydraddoldeb ac amrywiaeth ar waith er mwyn cynnig arweiniad i staff ynghylch yr hyn a ddisgwylid ganddynt a llywio eu harferion recriwtio. Mae mynedfa i'r practis drwy nifer o risiau carreg yn y blaen ac felly nid yw'n addas ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn. Dywedodd y practis

wrthym, fodd bynnag, y byddent yn cyfeirio cleifion gydag anghenion symudedd sylweddol at bractis arall.

### Gwrando a dysgu o adborth

Mae gan y practis weithdrefn ysgrifenedig ar gyfer ymdrin â phryderon (cwynion) am driniaeth ddeintyddol y GIG a phreifat ac roedd yn cael ei harddangos yn amlwg ar ddiwrnod yr arolygiad yn y dderbynfa a'r mannau aros. Fodd bynnag, dywedodd dros hanner o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym nad oeddent yn gwybod sut i wneud cwyn neu fynegi pryder ynghylch y gwasanaethau maent yn eu derbyn yn y practis deintyddol. Efallai y bydd y practis eisiau ystyried yr ymateb hwn gan y cleifion ymhellach. Roedd y weithdrefn gwyno ar y cyd a oedd ar gael yn cydymffurfio â'r trefniadau ynghylch nodi pryderon am driniaeth y GIG (a adnabyddir fel 'Gweithio i Wella')[2] ac ar gyfer cleifion preifat yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008.[3] Fodd bynnag, roedd angen adolygu a diweddaru'r polisi cwyno ar gyfer cleifion y GIG a chleifion preifat, er mwyn gwahaniaethu'n haws rhwng manylion cyswllt cleifion y GIG/preifat ac amseroedd ymateb i gwynion.

Gwnaethom hefyd adolygu polisi'r practis ar gyfer ymdrin â chwynion a phryderon a phrosesau cadw cofnodion o gwynion. Gwelsom dystiolaeth fod archwiliadau rheolaidd yn cael eu cynnal i ystyried unrhyw themâu neu dueddiadau. Roedd y cwynion a dderbyniwyd gan y practis yn cael eu trin yn unol â'r polisi ar waith. Er hynny, rhoddwyd cyngor o ran dangos tystiolaeth o gamau gweithredu a chanlyniadau yn fwy clir mewn ffurflen fformat safonol.

Nid oedd 13 o’r 20 claf a gwblhaodd holiadur yn ymwybodol o gael eu holi ynglŷn â'u barn ar y practis deintyddol – er enghraifft, trwy holiaduron i gleifion. Fodd bynnag, gwelsom dystiolaeth fod arolygon bodlonrwydd cleifion wedi'u dosbarthu er mwyn casglu adborth ac awgrymiadau gan gleifion. Ystyriwyd y camau i’w cymryd a'r hyn a ddysgwyd oddi wrth adborth cleifion mewn archwiliad. Gwnaethom gynghori'r practis i arddangos dadansoddiad o'r adborth a gafwyd a hynny yn y man aros er mwyn dangos i gleifion eu bod yn

---

[2] http://www.wales.nhs.uk/sites3/page.cfm?orgid=932&pid=50738

[3] https://www.dentalprotection.org/uk/help-advice/regulations/wales/private-dentistry-(wales)-regulations-2008

gweithredu ar adborth a'i fod yn cael ei ddefnyddio i ddylanwadu ar newidiadau i'r ffordd mae gwasanaethau yn cael eu cyflenwi yn y practis.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen adolygu a diweddaru'r polisi cwynion ar gyfer cleifion y GIG a chleifion preifat.

## Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

*Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth fod y practis yn darparu gofal deintyddol diogel ac effeithiol ar gyfer cleifion. Fodd bynnag, roedd rhai meysydd roedd angen eu gwella.

Roedd digon o gyfarpar yn y cyfleusterau clinigol ac roeddent yn ymddangos yn lân a thaclus. Roeddem yn fodlon ar y trefniadau a oedd ar waith ar gyfer amddiffyn staff a chleifion rhag heintiau ataliadwy sy'n gysylltiedig â gofal iechyd. Canfuom fod y practis wedi cymryd camau i helpu i amddiffyn iechyd, diogelwch a llesiant y staff a'r cleifion.

Roedd cyfarpar dadebru a chyffuriau brys ar gael yn y practis ac roedd systemau ar waith i helpu i sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Roedd y practis wedi cymryd camau i hyrwyddo ac i ddiogelu lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n dod yn agored i niwed neu sydd mewn perygl.

Roedd trefniadau ar waith i sicrhau bod offer pelydr-X yn cael eu defnyddio mewn modd diogel ac yn cael eu cynnal a'u cadw. Fodd bynnag, dylid adolygu a diweddaru'r ffeil ymbelydredd. Gwnaethom hefyd nodi bod angen gwneud rhywfaint o welliannau i agweddau o broses cadw cofnodion y deintyddion er mwyn cydymffurfio'n llawn â'r safonau clinigol ar gyfer cadw cofnodion.

### Gofal diogel

Cafodd ein pryder ynghylch hyfforddiant gloywi ar adfywio cardio-pwlmonaidd ar gyfer un aelod o staff ei drin drwy ein proses sicrwydd ar unwaith. Roedd hyn yn golygu ein bod wedi ysgrifennu at y practis ar unwaith wedi'r arolygiad, gan

fynnu bod camau adferol brys yn cael eu cymryd. Rhoddir manylion y gwelliannau a oedd eu hangen ar unwaith yn Atodiad B.

### Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Canfuom fod y practis wedi cymryd camau i helpu i amddiffyn iechyd, diogelwch a llesiant y staff a'r cleifion. Gwelsom fod profion dyfeisiau cludadwy wedi'u cynnal i helpu i sicrhau bod dyfeisiau trydanol bach yn cael eu defnyddio’n ddiogel yn y practis. Fodd bynnag, mae angen tystiolaeth o dystysgrif weirio trydanol bob pum mlynedd ar gyfer yr adeilad.

Roedd un toiled deuryw at ddefnydd cleifion ar y llawr gwaelod. Hefyd, roedd dau gyfleuster toiled ar gael i staff. Roedd arwyddion clir at y cyfleusterau hyn ac roeddent i'w gweld yn lân ac roedd biniau gwastraff glanweithiol ar gael. Roedd contract ar waith ar gyfer symud a gwaredu gwastraff peryglus (clinigol) a gynhyrchir gan y practis mewn dull diogel. Gwelsom hefyd fod gwastraff peryglus yn cael ei storio'n briodol. Roedd cynwysyddion offer miniog yn cael eu storio'n ddiogel. Roedd asesiadau risg ar gyfer Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) a thaflenni data diogelwch yn cael eu cadw ar gyfer sylweddau yn ogystal ag asesiadau risg er mwyn cynorthwyo staff i'w defnyddio'n ddiogel. Roedd sylweddau COSHH yn cael eu storio'n ddiogel.

Roedd diffoddwyr tân ar gael a oedd wedi'u gwasanaethu o fewn y flwyddyn ddiwethaf, roedd contract cynnal a chadw ar waith ar gyfer offer diogelwch tân, ac roedd arwyddion tân ac asesiadau risg yn amlwg. Roedd polisi iechyd a diogelwch wedi ei fabwysiadu. Rhoddwyd cyngor ar ddiwrnod yr arolygiad y dylai'r practis ail-leoli'r blwch i staff sy'n ysmygu ar y wal ymhellach i ffwrdd o ardal storio'r cywasgydd.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen tystiolaeth o dystysgrif weirio trydanol ar gyfnodau o bob pum mlynedd ar gyfer yr adeilad ac mae'n rhaid anfon copi at AGIC.

### Atal a rheoli heintiau

Gwnaethom edrych ar bob ystafell driniaeth yn y practis, a nodi eu bod yn lân ac yn daclus. Roedd y lloriau a’r arwynebau yn yr ystafell driniaeth yn hawdd eu glanhau er mwyn lleihau croes-heintio. Ni chodwyd unrhyw bryderon gan gleifion ynghylch glendid y practis deintyddol. Roedd y rhan fwyaf o’r cleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo bod y practis deintyddol yn lân iawn, gydag un claf yn dweud ei fod yn weddol lân. Roeddem yn fodlon ar y trefniadau ar gyfer

amddiffyn staff a chleifion rhag heintiau ataliadwy sy’n gysylltiedig â gofal iechyd yn y practis deintyddol. Mae hyn oherwydd inni weld tystiolaeth bod mesurau atal a rheoli heintiau ar waith. Roedd enghreifftiau yn cynnwys y canlynol:

- Roedd gan y practis ystafell ddadheintio benodedig a oedd yn bodloni'r egwyddorion a amlinellwyd yn nogfen polisi a chyfarwyddyd Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Diwygiad 1)[4]
- Cyfarpar diogelu personol megis menig a ffedogau untro a chyfarpar diogelu llygaid ar gael ac yn cael ei ddefnyddio
- Roedd llyfrau cofnodion ar gyfer gwirio offer sterileiddio yn cael eu defnyddio

Fodd bynnag, dylai'r practis sicrhau bod digon o offer llaw uwchsonig ar gyfer pob ystafell driniaeth a gwella dilysiad y prosesau glanhau â llaw drwy ddefnyddio llyfr cofnodion pwrpasol.

Cynghorwyd bod defnyddio chwistrelli untro ar gyfer rhoi pigiadau a bandiau matrics untro[5] yn arfer da. Dylai'r practis wella’r gwaith o wirio'r prosesau glanhau â llaw drwy ddefnyddio llyfr cofnodion pwrpasol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r practis sicrhau bod digon o offer llaw uwchsonig ar gyfer pob ystafell driniaeth a gwella’r gwaith o ddilysu’r prosesau glanhau â llaw drwy ddefnyddio llyfr cofnodion pwrpasol.

### Rheoli meddyginiaethau

Roedd cyfarpar dadebru a chyffuriau brys ar gael yn y practis, ac roedd systemau ar waith i helpu i sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio pe bai

[4] Mae Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) (Diwygiad 1) yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ynglŷn â dadheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

[5] Defnyddir dyfais untro ar glaf unigol yn ystod un weithdrefn ac yna caiff ei thaflu. Ni fwriadwyd iddi gael ei hailbrosesu a'i defnyddio eto, hyd yn oed ar yr un claf.

argyfwng claf (llewyg/cwymp). Cynghorwyd y prif ddeintydd i wirio'r pecyn dadebru ac ocsigen a chofnodi hynny bob wythnos. Roedd polisi dadebru ar waith a oedd yn cynnwys rolau a chyfrifoldebau'r staff.

Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod staff wedi cael hyfforddiant ar sut i ymdrin ag argyfyngau meddygol a sut i gyflawni dadebru cardio-pwlmonaidd. Fodd bynnag, fel y trafodwyd yn gynharach, roedd angen i hyfforddiant un aelod o staff gael ei ddiweddaru a chafwyd ymateb i hyn.

Roedd y practis wedi penodi dau swyddog cymorth cyntaf yn y tîm a oedd wedi cwblhau'r hyfforddiant perthnasol ac roedd pecyn cymorth cyntaf ar gael. Roedd llyfr damweiniau priodol ar waith ac, yn dilyn cyngor, roedd rheolwr y practis yn sicrhau bod y taflenni damweiniau a gwblhawyd yn cael eu ffeilio'n ddiogel i gynnal safonau diogelu data.

Gwelsom fod cyffuriau a ddefnyddir mewn argyfwng wedi eu trefnu'n dda ac wrth law yn hwylus pe bai argyfwng. Gwnaethom gynghori y gallai cyffuriau a ddefnyddir mewn argyfwng gael eu storio gyda’r siartiau llif cynnal bywyd cyfatebol i'w defnyddio mewn argyfyngau penodol. Roedd cofnod o'r gwiriadau rheolaidd o gyffuriau a ddefnyddir mewn argyfwng yn cael ei gynnal.

### Diogelu plant ac oedolion mewn perygl

Roedd y practis wedi cymryd camau i hyrwyddo ac amddiffyn lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n agored i niwed a allai fod mewn perygl. Mae hyn oherwydd bod polisïau amddiffyn priodol ar waith, gyda rhifau cyswllt lleol ar gyfer asiantaethau diogelu.

Roedd hyfforddiant ar ddiogelu plant yn cael ei ddarparu ar gyfer staff perthnasol. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod angen hyfforddiant diogelu oedolion ar gyfer nifer o staff. Roedd trefniadau ar waith i staff leisio unrhyw bryderon a dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo y gallent wneud hyn mewn gwirionedd.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen rhoi hyfforddiant diogelu oedolion sy'n agored i niwed ar waith ar gyfer yr holl staff perthnasol.

### Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwnaethom edrych ar y cyfleusterau clinigol yn yr ystafelloedd triniaeth a chanfod eu bod yn cynnwys yr offer perthnasol ar gyfer diogelwch cleifion a'r

tîm deintyddol. Gwnaethom sylwi bod yr ystafelloedd triniaeth wedi'u cynllunio a'u trefnu i helpu’r tîm i weithio'n effeithlon, ac roeddent yn amlwg yn lân iawn ac mewn cyflwr da. Gwelsom yn gyffredinol fod yr amgylcheddau wedi cael eu cynllunio a'u trefnu i sicrhau bod offer ymbelydredd yn cael eu defnyddio'n ddiogel.

Fodd bynnag, gwnaethom drafod mater gosodiad ystafell o ran yr offer ymbelydredd yn yr ystafell driniaeth lawr llawr yng nghefn yr adeilad, ynghylch safle'r ffenestr yn yr ystafell honno. Roedd ffeil ymbelydredd ar gael yn y practis a oedd yn cynnwys gwybodaeth allweddol mewn un man. Dylid adolygu a diweddaru'r ffeil ymbelydredd sy'n manylu ar ddefnydd diogel o belydrau-X.

Gwelsom ddogfennau a oedd yn dangos bod y peiriannau pelydr-X wedi cael eu gwasanaethu’n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Canfuom fod staff a oedd yn cymryd rhan yn y gwaith o dynnu radiograffau wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol, yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000.[6]

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylid adolygu a diweddaru'r ffeil ymbelydredd sy'n manylu ar ddefnydd diogel o belydrau-X.

## Gofal effeithiol

### Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Mae cleifion yn elwa ar bractis sy'n ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir. Gwelsom fod y practis yn cynnal archwiliadau perthnasol, gan gynnwys rheoli heintiau, archwiliadau radiograffeg a nodiadau clinigol mewnol bob chwe mis (mae angen diweddaru'r un olaf yn dilyn canfyddiadau'r cofnodion).

### Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

[6] http://www.legislation.gov.uk/uksi/2000/1059/pdfs/uksi_20001059_en.pdf

Dywedodd y prif ddeintydd fod prosesau adolygu ansawdd gan gymheiriaid yn fewnol. Nododd y prif ddeintydd fod y practis wedi ymwneud cyn hyn ag archwiliad clinigol ac adolygiad cymheiriaid Deoniaeth Cymru neu CAPRO.[7]

## Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd ffeiliau cleifion yn cael eu storio mewn modd priodol er mwyn sicrhau diogelwch data personol. Roedd copi wrth gefn o'r holl ffeiliau electronig yn cael ei wneud yn rheolaidd ac roedd mynediad at y sgriniau cyfrifiadur yn ddiogel ac yn breifat. Roedd polisi diogelu data ar waith.

## Cadw cofnodion

Gwnaethom ystyried sampl o gofnodion deintyddol cleifion i asesu ansawdd y dull o gadw cofnodion, ac roedd hyn yn dda yn gyffredinol. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod angen gwella'r meysydd canlynol:

- Rhaid gwella cysondeb cadw cofnodion mewn perthynas â chydsyniad cyfredol i driniaeth
- Rhaid gwella cysondeb cofnodion sgrinio am ganser y geg i gynnwys trafodaethau ynghylch ysmygu a stopio yfed alcohol
- Mae angen ystyried cysondeb radiograffau (bite wings)[8] yn unol â chanllawiau ac mae'n rhaid i radiograffau gael eu cyfiawnhau a'u hadrodd arnynt
- Mae angen cofnodi archwiliadau ceg mewnol ac allanol yn fwy cyson ac yn llawn
- Mae angen cofnodi a chyfiawnhau cyfnodau adalw cleifion

---

[7] https://dental.walesdeanery.org/improving-practice-quality/carro

[8] Ffilm pelydr-X ddeintyddol gyda phigyn canolog y gall y dannedd gau arno, gan ei dal mewn lle ar gyfer tynnu llun radiograffig o nifer o ddannedd uchaf ac isaf ar yr un pryd.

Trafodwyd y canfyddiadau â'r prif ddeintydd a chytunwyd y byddai'n rhoi rhaglen adolygu gan gymheiriaid ar waith ar gyfer cofnodion cleifion er mwyn gwella ansawdd y gwaith o gadw cofnodion ymhellach.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i ddeintyddion sicrhau eu bod yn mynd i'r afael â'r canfyddiadau penodol yn yr adroddiad sy'n ymwneud â chadw cofnodion ac mae'n rhaid iddynt wneud trefniadau priodol i sicrhau bod cofnodion deintyddol cleifion a gwblheir ganddynt yn cael eu cynnal yn unol â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion. Dylid ymgymryd ag archwiliad cadw cofnodion diweddaredig.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain ochr yn ochr â'r Safonau Iechyd a Gofal.*

Mae practis Crescent Dental Care yn eiddo i'r prif ddeintydd, a oedd hefyd yn ei reoli, gyda saith deintydd arall a thîm staff cyfeillgar a sefydlog. Gwelsom fod arlwy o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith gyda'r nod o sicrhau diogelwch staff a chleifion. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan uwch staff y practis, a'u cydweithwyr. Gwnaethant hefyd ddweud wrthym eu bod yn cael cyfleoedd i fynd i hyfforddiant perthnasol.

Roedd systemau ar waith i sicrhau bod gwiriadau cyn cyflogaeth unrhyw aelodau newydd o staff yn cael eu cynnal cyn iddynt ymuno â'r practis, gan gynnwys gwiriadau clirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Fodd bynnag, nid oedd gwiriadau diogelu'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn gyfredol ar gyfer dau ddeintydd, yn unol â'r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat.

### Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Mae practis Crescent Dental Care yn eiddo i'r prif ddeintydd, ac mae'n cael cymorth gan saith deintydd arall a thîm practis mawr. Mae dau reolwr practis ar waith i gynorthwyo â'r gwaith o reoli'r practis o ddydd i ddydd. Pan wnaethom nodi meysydd i'w gwella, dangosodd y prif ddeintydd a rheolwyr y practis eu bod yn ymroddedig i fynd i'r afael â'r rhain yn gyflym.

Dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael digon o gefnogaeth yn eu swyddi gan bob un o aelodau tîm y practis. Canfuom fod y staff yn eglur am eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau. Dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo bod cyfathrebu da ymhlith tîm y practis. Gwelsom gofnodion o gyfarfodydd practis a oedd wedi cael eu cynnal yn rheolaidd, a gwelsom fod camau gweithredu a chofnodion yn cael eu cadw.

Roedd amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau ar waith gyda'r nod o sicrhau diogelwch staff a chleifion.

## Staff ac adnoddau

### Y gweithlu

Gwelsom dystysgrifau a oedd yn dangos bod staff wedi cael hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau sy'n berthnasol i'w swyddi. Gwnaeth y staff gadarnhau hefyd eu bod yn cael eu cefnogi a'u hannog gan y tîm rheoli i fanteisio ar gyfleoedd hyfforddi. Gwelsom dystysgrifau a oedd yn dangos bod yr holl staff clinigol wedi cwblhau hyfforddiant mewn meysydd y mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn eu hargymell yn fawr iawn.

Roedd gan y practis dîm staff cyson a sefydlog, a chafodd gwaith tîm da ei adrodd a'i weld ar ddiwrnod yr arolygiad. Gwelsom dystiolaeth fod y staff wedi derbyn arfarniad o'u perfformiad o fewn y flwyddyn ddiwethaf a bod cynlluniau datblygu personol wedi'u llunio o ganlyniad i'r arfarniadau hyn.

Canfuom fod deintyddion a staff nyrsio wedi'u cofrestru i ymarfer gyda’r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a bod yswiriant indemniad ar waith ganddynt. Roedd cofnodion ar gael a oedd yn dangos bod y staff wedi eu himiwneiddio rhag Hepatitis B, er mwyn amddiffyn cleifion a hwythau rhag eu heintio.

Roedd y deintyddion a oedd yn gweithio yn y practis yn darparu gwasanaethau deintyddol preifat, a gwelsom fod eu tystysgrifau cofrestru gydag AGIC wedi'u harddangos mewn lle amlwg, yn unol â’r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat.

Roedd systemau ar waith i sicrhau bod gwiriadau cyn cyflogaeth unrhyw aelodau newydd o staff yn cael eu cynnal cyn iddynt ymuno â'r practis, gan gynnwys gwiriadau clirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Fodd bynnag, nid oedd gwiriadau diogelu'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn gyfredol ar gyfer dau ddeintydd, yn unol â'r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat.

#### Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i wiriadau diogelu'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd fod yn gyfredol ar gyfer dau ddeintydd yn unol â’r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat.

# 4. Beth nesaf?

Lle’r ydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae’r rhain wedi'u manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diogelwch cleifion lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith gan ddweud wrthym am y camau brys mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau’n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi derbyn sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# 5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Mae arolygiadau deintyddol fel arfer yn rhai lle rhoddir rhybudd. Mae practisau deintyddol yn derbyn o leiaf deuddeg wythnos o rybudd ymlaen llaw ynglŷn ag arolygiad. Mae hyn er mwyn rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod y practis yn rhedeg yn unol â'r arfer, a bod yr arolygiad yn amharu ar gleifion cyn lleied ag y bo modd.

Mae adborth yn cael ei ddarparu i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Rydym yn gwirio sut mae practisau deintyddol yn bodloni Safonau Iechyd a Gofal 2015. Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011. Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir gwybodaeth bellach am sut mae AGIC yn arolygu practisau deintyddol a'r GIG ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod yr arolygiad. Oherwydd yr effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion | Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw bryderon dybryd yn ystod yr arolygiad hwn. | | | |

## Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

## Gwasanaeth: Crescent Dental Care

## Dyddiad yr arolygiad: 28 Medi 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.

| Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Canfyddiad<br><br>Roedd y rhan fwyaf o'r staff yn y practis wedi derbyn hyfforddiant dadebru cardio-pwlmonaidd cyfredol. Fodd bynnag, gwelsom fod angen diweddaru hyfforddiant dadebru cardio-pwlmonaidd ar gyfer un aelod o staff.<br><br>Yr hyn y mae angen ei wella<br><br>Mae angen trefnu sesiynau diweddaru hyfforddiant mewn adfywio cardio-pwlmonaidd | Safonau Iechyd a Gofal 7.1<br><br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br><br>14 (1) (b)<br><br>Canllawiau'r Cyngor Deintyddol | Mae'r aelod o staff wedi cwblhau cwrs cynnal bywyd sylfaenol ar-lein ar 3 Hydref 2017. Anfonwyd copi o'r dystysgrif hon at AGIC ar 6 Hydref 2017.<br><br>Mae'r aelod o staff wedi cael lle ar gwrs cymorth cyntaf llawn ar 20 Hydref 2017. Bydd copi o'r dystysgrif hon yn cael ei hanfon at AGIC – yn aros am gadarnhad/tystysgrif. | Mark Waters | 20 Hydref 2017 |

| Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| ar gyfer yr holl staff perthnasol yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol. | Cyffredinol<br>1.5.3 | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth: Emma Anyadike**

**Enw (llythrennau bras):Emma Anyadike**

**Swydd: Rheolwr y practis**

**Dyddiad: 6 Hydref 2017**

# Atodiad C – Cynllun gwella

## Gwasanaeth: Crescent Dental Care

## Dyddiad yr arolygiad: 28 Medi 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd profiad y claf** | | | | |
| Mae angen i'r practis ddarparu fwy o wybodaeth hyrwyddo iechyd deintyddol yn y mannau aros. | Safonau Iechyd a Gofal 4.2 a 5.1<br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>Rheoliad 14 (1) (a) | Archebwyd mwy o ddeunydd hybu iechyd cleifion ac mae'n cael ei arddangos yn y ddwy ystafell aros fel ei gilydd.<br>Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth ynghylch rhoi'r gorau i ysmygu ac am gael deiet iach. | Isobel Williams | Wedi'i gyflawni |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Mae angen adolygu a diweddaru'r polisi cwynion ar gyfer cleifion y GIG a chleifion preifat. | Safon Iechyd a Gofal 6.3<br><br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008, Rheoliad 15 (4)<br><br>Canllawiau’r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 5.1 | Mae'r holl bolisïau wedi'u gwahanu i rai’r GIG a’r rhai preifat, gan sicrhau bod yr holl wybodaeth yn gyfredol ac yn berthnasol. Mae polisïau ar gael yn Gymraeg a Saesneg ar gyfer y cleifion. | Isobel Williams | Wedi’i gyflawni |
| **Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol** | | | | |
| Mae angen tystiolaeth o dystysgrif weirio trydanol ar gyfnodau o bob pum mlynedd ar gyfer yr adeilad ac mae'n rhaid anfon copi at AGIC. | Safon Iechyd a Gofal 2.1<br><br>Rheoliadau Trydan yn y Gweithle 1989 | Gofynnwyd am amcanbrisiau a chaiff y gwaith ei wneud a'i gwblhau erbyn 31 Ionawr 2018. | Isobel Williams | 31 Ionawr 2018 |
| Dylai'r practis sicrhau bod digon o offer llaw uwchsonig ar gyfer pob ystafell driniaeth a gwella’r gwaith o ddilysu’r prosesau glanhau â | Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) | Mae offer llaw wedi cael eu harchebu, sy'n ddigon ar gyfer pob ystafell driniaeth ac yn golygu bod rhai dros | Mark Waters | 22 Rhagfyr 2017 |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| llaw drwy ddefnyddio llyfr cofnodion pwrpasol. | 1.26 – 2.40 | ben. | | |
| Mae angen i bob aelod perthnasol o staff gael hyfforddiant diogelu oedolion sy'n agored i niwed. | Safon Iechyd a Gofal 2.7<br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>14 (1) (b) | Fe'n cynghorwyd nad yw Deoniaeth Cymru bellach yn darparu hyfforddiant yn y maes hwn. Rydym yn edrych ar opsiynau hyfforddiant ac argaeledd a byddwn yn trefnu i staff gael yr hyfforddiant hwn wedi'i ddiweddaru erbyn 31 Ionawr 2018. | Isobel Williams | 31 Ionawr 2018 |
| Dylid adolygu a diweddaru'r ffeil ymbelydredd sy'n manylu ar y defnydd diogel o belydrau-X. | Safon Iechyd a Gofal 2.9<br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>14 (1) (b)<br>Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000 | Rydym wedi cysylltu â'r darparwr gwasanaeth, sy'n cefnogi'r practis i adolygu a diweddaru pob maes perthnasol yn y ffeil ymbelydredd a chynghori ar unrhyw waith angenrheidiol sy'n weddill. Rydym yn bwriadu dechrau system ar-lein. | Isobel Williams | 12 Ionawr 2018 ac yn parhau |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Mae'n rhaid i ddeintyddion sicrhau eu bod yn mynd i'r afael â'r canfyddiadau penodol yn yr adroddiad sy'n ymwneud â chadw cofnodion ac mae'n rhaid iddynt wneud trefniadau priodol i sicrhau bod cofnodion deintyddol cleifion a gwblheir ganddynt yn cael eu cynnal yn unol â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion. Dylid ymgymryd ag archwiliad cadw cofnodion diweddaredig. | Safon Iechyd a Gofal 3.3<br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>14 (1) (b) | Rydym wedi trefnu archwiliad cadw cofnodion pellach er mwyn nodi ble gallai deintyddion unigol wneud gwelliannau. Wrth symud ymlaen, caiff hwn ei fonitro gan y prif ddeintydd er mwyn sicrhau bod arferion cadw cofnodion yn cael eu cynnal yn gyson yn unol â'r safonau proffesiynol. | Mark Waters | 22 Rhagfyr 2017 ac yn parhau |
| **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth** | | | | |
| Mae angen i wiriadau diogelu'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer dau ddeintydd fod yn gyfredol yn unol â'r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat. | Safon Iechyd a Gofal 2.7<br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>Rheoliad 13 (2) | Mae'r rhain wedi cael eu gweithredu; derbyniwyd un dystysgrif ac rydym yn aros i dystysgrif arall gael ei dychwelyd. | Isobel Williams | Wedi'i gyflawni |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth**

**Enw (llythrennau bras):Mark Waters ac Isobel Williams**

**Swydd: Prif Ddeintydd a Rheolwr y Practis**

**Dyddiad: 28 Tachwedd 2017**